

Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fercher, Ionawr 10ed 2024 yn Neuadd Goffa Penbryn.

Minutes of Penbryn Community Council Meeting held on Wednesday, January 10th 2024 at Penbryn Memorial Hall.

Yn bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* Delfryn Owens, Caerwyn Owen, Gwyn James, Gareth Evans, Jonathan Rees, Melva Phillips, Walwyn Jones.

1 Ymddiheuriadau/Apologies

Cynghorwyr/*Councillors* Barri Davies, Teifi Davies, William Anwyl.

2 Materion Personol/Personal Matters

Estynnwyd croeso cynnes yn ôl i Caerwyn yn dilyn cyfnod o salwch.

Caerwyn was warmly welcomed back following a short period of illness.

3 Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 5/12/23

Cynigiwyd gan Jonathan eu bod yn gywir a'i eilio gan Gareth.

Proposed by Jonathan to be correct and seconded by Gareth.

4 Materion yn Codi/Matters Arising

i) Gohebiaeth Elin Jones/*Elin Jones' Correspondence*

Dywedodd ei bod wedi bod yn trafod y Cardi Bach gyda Trafnidiaeth Cymru, ac yn debygol y bydd cytundeb newydd erbyn y Gwanwyn. Bydd cytundeb y T5 yn cael ei dendro gydag amserlen newydd erbyn mis Gorffennaf (y bwriad).

She had been in discussions regarding the Cardi Bach service with Trafnidiaeth Cymru, with the likelihood of a new agreement by the Spring. The T5 service is being put out to tender with a new timetable, probably to start in July.

ii) Sedd Wag ar y Cyngor/*Vacancy on the Council*

Yn dilyn penderfyniad Huw Davies i ymddiswyddo fel Cynghorwr, cysylltodd y Clerc gyda Swyddfa Etholiadol y Cyngor Sir, gan ofyn iddynt ddechrau'r broses o lenwi'r sedd wag hon. Byddwn yn derbyn yr hysbysiadau swyddogol oddi wrthynt yn ystod yr wythnos nesaf.

Following Huw Davies' decision to resign as Community Councillor, the Clerk informed the County Council's Electoral Office, in order to start the process of electing another councillor. We shall receive the official notices from the County Council shortly.

iii) Llythyr Diogelwch A487/A487 Safety Concerns Correspondence

Datganodd y Clerc ei fod wedi gohebu â'r Asiant Cefnffyrdd yn mynegi pryderon aelodau'r Cyngor hwn ynghylch diogelwch yr A487 rhwng Tanygroes a Sarnau. Estynnwyd gwahoddiad iddynt ddod i weld drostynt eu hunain beth yw gwir byderon yr aelodau.

The Clerk stated that he had corresponded with the Trunk Road Agency regarding the safety of the A487 between Tanygroes and Sarnau. An invitation was extended to them to see for themselves the extent of our concerns.

5 Cyllid/Finance

i) Balans/Balance

Derbyniwyd rhag-hysbysiad y byddai'r gwaith o gynnal a chadw tai bach Tre-saith dros gyfnod mis Tachwedd y llynedd hyd at fis Mawrth eleni yn costio £1000. Nodwyd hefyd bod aelodaeth Un Llais Cymru am eleni yn ddyledus, sef £261, gan adael balans o £11461.99.

Notice was received that the work for maintaining the public toilets at Tre-saith between November and March this year would cost £1000. Membership fee for One Voice Wales, namely £261, is also due, leaving a balance of £11461.99.

ii) Rhagor o Lofnodwyr/Need for more Signatories

Y mae gwir angen am ragor o lofnodwyr i arwyddo sieciau ar ran y Cyngor. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn a chytunodd y Clerc i wneud ymholiadau pellach yng nghanen Lloyds yn Aberteifi.

There is a need for more signatories to sign cheques on behalf of the Council. It was unanimously agreed and the Clerk agreed to make further enquiries at Lloyds branch at Cardigan.

iii) Cyflog y Clerc/Clerk's Salary

Dywedodd y Cadeirydd fod angen cytuno ar gyflog y Clerc. Gyda'r sefyllfa ariannol wedi sefydlogi, cytunwyd yn unfrydol bellach y dylid mynd ati i ddechrau talu'r Clerc am ei waith.

Delfryn stated the need to discuss the Clerk's salary. With the finances having stabilised, it was unanimously agreed to take steps towards paying the Clerk for his work.

iv) Praesept 2024/25 Precept

Yn dilyn ein trafodaeth y mis diwethaf, cafwyd sylwadau doeth a chytbwys yn cloriannu manteision ac anfanteision un ai ei gynyddu ychydig neu ei adael fel y mae ar hyn o bryd. Teimlid bod angen bod yn ofalus wrth osod y cyfanswm. Wedi pwyso a mesur, cynigiodd Jonathan ei gynyddu ychydig gyda Gwyn yn eilio, gan gytuno i'w gynyddu o £12000 i £12500. Cytunwyd yn unfrydol.

Following last month's meeting, a mature and balanced discussion followed, weighing up the advantages and disadvantages of either increasing or freezing the amount next year. The need for due consideration was felt as various options were raised. Having considered, Jonathan proposed a small increase seconded by Gwyn, obtaining unanimous support for an increase from £12000 to £12500.

v) Cais am gymorth ariannol gan Wasanaeth Beic Gwaed/ Application for financial assistance by Blood Bikes Service

Gwasanaeth yw hwn sydd yn cludo gwaed ac anghenion tebyg rhwng gwahanol ysbytai a meddygfeydd. Nodwyd cefnogaeth gadarn i'r gwaith hwn a chefnogwyd y cais hwn yn unfrydol gan ddynodi cyfanswm o £300 tuag at yr achos.

This is a service which distributes blood and similar resources between various hospitals and surgeries. Strong support was expressed for this vital work, and the application was unanimously endorsed with a contribution of £300 towards the cause.

6 Cynllunio/Planning

i) A240002 The Mill House, Sarnau

Mynegwyd syndod a siom fod yr eiddo wedi'i ddymchwel mor ddisymwth. Cytunwyd i adael yr achos yn nwylo'r swyddogion sy'n gyfrifol am geisiadau cynllunio.

Surprise and disappointment was the response expressed by the members at the news of the property's demolition. Agreed to allow planning officers to review the application.

- ii) A230899 Land Adjacent Talsarn, Tanygroes
Cais ôl-syllol sydd wedi'i drafod o'r blaen.
Retrospective application already discussed.

DIM GWRTHWYNEBIAD/NO OBJECTIONS

7 Gohebiaeth/Correspondence

- i) Rhaglen Hyfforddiant/*Training Programme*
Derbyniwyd cais gan Gyngor Sir Ceredigion am fraslun o Raglen Hyfforddiant ar gyfer y Cyngor Cymuned. Yn dilyn trafodaeth ymhlith yr aelodau, cytunodd Delfryn a Jonathan i fynychu sesiynau hyfforddiant yn ystod y misoedd nesaf. Ategodd y Clerc y byddai'n llunio canllawiau hyfforddiant i'w hanfon ymlaen at y Cyngor Sir.
A request was received from Ceredigion County Council for a Training Programme for Penbryn Community Council. Following the discussion among members, Delfryn and Jonathan agreed to attend training courses during the next month. The Clerk added that he would prepare training criteria to be forwarded to the County Council.

8 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- i) Meinciau Tresaith/*Benches at Tresaith*
Cododd Walwyn yr angen am fainc newydd yn Nhresaith gerllaw'r traeth oherwydd ei chyflwr enbyd. Ategodd Gwyn hynny gan ychwanegu o bosibl bod angen dwy fainc newydd gan eu bod wedi pydru. Awgrymodd o bosibl y byddai meinciau plastig yn fwy gwydn i wrthsefyll yr elfennau. Pryder arall a godwyd oedd diogelwch y grisiau ar y llwybr ar hyd yr arfordir.
Walwyn raised the need for a new bench on the seashore at Tresaith due to its poor condition. Gwyn affirmed this suggesting possibly that there were two benches needing to be replaced. His suggestion was to install plastic benches which would be able to withstand the elements. Another issue raised was the safety of the steps on the coastal path at Tresaith.
- ii) Digwyddiad ger Glynarthen/*Incident near Glynarthen*
Cyfeiriodd Melva at ddigwyddiad gerllaw maes carafanau Woodlands ble aeth lori o eiddo Wynnstey yn gaeth yn y gwater. Ysyaeth, nid dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd, ond y trydydd tro, gan beri cryn anhawster wrth i'r ffordd gael ei chau am gyfnod. Nodwyd mai'r ateb amlwg fyddai llenwi'r gwater a lledu arwynebedd y ffordd er mwyn hwyluso teithio ar hyd y ffordd hon. Cytunwyd i anfon adroddiad at Clic yn y Cyngor Sir.
Melva referred to an incident near Woodlands Caravan Park where a Wynnstey lorry became stuck in the roadside ditch. Unfortunately, this wasn't the first such incident, but the third time, causing great inconvenience to the community. The obvious solution would be to fill the ditch thus extending the road surface for all vehicles. It was agreed to submit a report to Clic at the County Council.

9 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Chwefror 6ed 2024 am 7.30 y.h.

The next meeting will be held on Tuesday, February 6th 2024 at 7.30 p.m.